

Welsh Language Policy

We acknowledge the fact that under the Welsh Language (Wales) Measure 2011 the Welsh language has official status, and should be treated as favourably as the English language.

We believe that it is good practise to provide services in the language of choice of our staff, volunteers customers, clients, donors and supporters. We also believe that it shows respect to our workforce and our volunteers to encourage and facilitate the use of their chosen language whether it's Welsh or English in the workplace.

We'll make sure that we make constant progress towards achieving this ambition, and this Welsh Language Policy sets out our current commitments in relation to using Welsh and also, where appropriate, sets targets to help us develop our use of the Welsh language.

The scope of our commitments in this policy are limited to activities and services in Wales or which are delivered to people living in Wales, and also limited to activities and services which we are able to control or influence.

Public Image

Tenovus Cancer Care currently has some permanent signs in English only but we'll review this as they're replaced and where possible we'll replace with bilingual signs. We'll aim to make all new permanent signs fully bilingual by 2017, and we'll also aim to include more Welsh on temporary signs by 2016.

Our primary logo is bilingual and is the preferred choice for all our communications other than those aimed exclusively at an audience in England. The majority of our stationery is bilingual including letterheads, compliment slips and business cards.

Website and Social Media Services

The charity's website includes some Welsh, and we're committed to using more Welsh by 2017. We'll start to use Welsh in our social media services such as Facebook and Twitter in a phased approach over the next 4 years.

Advertising, Marketing and PR

Any advertising or PR on Welsh medium radio, TV, or print is bilingual or in Welsh only, depending on the requirement. Some of our outdoor advertising, printed materials, exhibition and promotional materials are bilingual. We'll continue to review this and aim to use more Welsh in this area.

Currently the charity's recruitment advertising is bilingual whenever Welsh language skills are essential for the advertised post.

Our pricing, receipts and ticketing are in English only. We'll review this and use more Welsh in these areas where reasonable by 2019.

Communication

We cannot guarantee a Welsh language service but we welcome the use of Welsh by staff able to do so, and we'll promote our Welsh medium face to face services by using the Working Welsh badge scheme.

We'll be developing our bilingual telephone services to ensure that all staff are able to handle, or refer, Welsh medium calls in a professional, appropriate and courteous manner.

Callers to our free Support Line can request a Welsh speaking member of staff or volunteer. If no Welsh speaker is available the caller will be given the option of continuing the conversation in English or waiting for a Welsh speaker to get back to them.

At the moment, we generally write to people in English although we accept correspondence in Welsh or English. We always reply in Welsh when we are replying to letters or emails received in Welsh or when we have received a request to do so.

Our forms and account documents are predominantly in English but we'll consider bilingual forms as appropriate.

Staff and the Workplace

We assess what levels of Welsh language skills are required for any roles in the charity and include this as part of our monitoring process.

We'll keep a record of the Welsh language skills of all staff from 2015, and share information about each employee's Welsh language skills, so that we can direct Welsh language enquires to the appropriate person where agreed.

We'll assess and record the Welsh language skills of all new staff as they join us and will support and facilitate the use of Welsh and English in the workplace. If communicating in Welsh is required for a role and a training need is identified, the Charity will provide relevant training. We'll also try and support staff who want to improve their Welsh language skills, and enable them to receive training independently

We'll ensure that this policy is supported at the highest level in our organisation, and we'll appoint one member of the senior management team to be responsible for implementing, championing and reviewing this policy together with dealing with any complaints about the Welsh language.

We'll make sure the policy is available for staff and the public to read including putting it on our website. This policy will be implemented using a phased approach and we'll assess and revise it every year.

Services Delivered on our Behalf

We encourage every contractor or third party that delivers services on our behalf to comply with this policy to the best of their ability.

Polisi Iaith Gymraeg

Rydyn ni'n cydnabod bod gan yr iaith Gymraeg statws swyddogol dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac na ddylai gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Credwn ei bod yn arfer dda i ddarparu gwasanaethau mewn iaith ddewisol ein staff, gwirfoddolwyr, cwsmeriaid, cleientiaid, rhoddwyr a chefnogwyr. Credwn hefyd ei bod yn dangos parch i'n gweithlu a'n gwirfoddolwyr i annog a hwyluso'r defnydd o'u hiaith ddewisol yn y gweithle, boed honno'n Gymraeg neu Saesneg.

Byddwn yn sicrhau ein bod yn gwneud cynnydd cyson i wireddu'r uchelgais hon, ac mae'r Polisi Iaith Gymraeg hwn yn amlinellu ein hymrwymiaidau cyfredol ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg a hefyd, lle bo'n addas, osod targedau i'n helpu i ddatblygu ein defnydd o'r iaith Gymraeg.

Mae sgôp ein hymrwymiaidau yn y polisi hwn yn gyfyngedig i'n gweithgareddau a'n gwasanaethau yng Nghymru neu rai sy'n cael eu darparu ar gyfer pobl sy'n byw yng Nghymru, a hefyd yn gyfyngedig i weithgareddau a gwasanaethau rydyn ni'n gallu eu rheoli neu ddylanwadu arnyn nhw.

Delwedd Gyhoeddus

Ar hyn o bryd mae gan Tenovus Gofal Canser rai arwyddion parhaol uniaith Saesneg ond byddwn yn adolygu hyn wrth eu hadnewyddu a lle bo'n bosibl byddwn yn eu cyfnewid am rai ddwyieithog. Rydyn ni'n anelu i wneud y cyfan o'r arwyddion parhaol yn gwbl ddwyieithog erbyn 2017, ac anelwn i gynnwys mwy o Gymraeg ar arwyddion dros dro erbyn 2016.

Mae ein prif logo yn ddwyieithog ac yn ddewis cyntaf ar gyfer ein holl gyfathrebiadau ac eithrio'r deunydd wedi ei anelu'n gyfan gwbl at gynulleidfa yn Lloegr. Mae'r mwyafrif o'n papur swyddfa yn ddwyieithog, gan gynnwys ein penawdau llythyron, slipiau cyfarch a chardiau busnes.

Y Wefan a'r Gwasanaethau Cyfryngau Cymdeithasol

Mae gwefan yr elusen yn cynnwys peth Cymraeg ac rydyn ni'n ymrwymo i ddefnyddio mwy o Gymraeg erbyn 2017. Byddwn yn cychwyn defnyddio'r iaith Gymraeg ar ein gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol fel Facebook a Twitter drwy ei chyflwyno'n raddol dros y 4 blynedd nesaf.

Hysbysebu, Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus

Mae unrhyw hysbysebu neu gysylltiadau cyhoeddus ar gyfer radio, teledu a'r wasg Gymraeg yn ddwyieithog neu yn Gymraeg yn unig, yn ôl yr angen. Mae rhai o'n hysbysebu allanol, deunydd argraffedig, a deunydd arddangos a hyrwyddo yn ddwyieithog. Byddwn yn parhau i adolygu hyn ac yn anelu i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y maes hwn.

Ar hyn o bryd, mae hysbysebion recriwtio'r elusen yn ddwyieithog pa bryd bynnag mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd dan sylw.

Mae ein trefn brisio, derbynebaw a thocynnau yn Saesneg yn unig. Byddwn yn adolygu hyn a defnyddio mwy o Gymraeg yn y meysydd hyn lle mae hynny'n rhesymol erbyn 2019.

Cyfathrebu

Ni allwn warantu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ond rydyn ni'n croesawu'r defnydd o'r Gymraeg gan staff sy'n gallu gwneud hynny a byddwn yn hyrwyddo ein gwasanaethau wyneb yn wyneb drwy gyfrwng y Gymraeg drwy ddefnyddio'r cynllun bathodyn Iaith Gwaith.

Byddwn yn datblygu ein gwasanaethau ffôn dwyieithog i sicrhau bod ein holl staff yn gallu trafod, neu gyfeirio, galwadau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn modd proffesiynol, priodol a chwrtais.

Gall rhai sy'n galw ein Llinell Gymorth am ddim ofyn am aelod o staff neu wirfoddolwr sy'n siarad Cymraeg. Os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael, caiff y galwr y dewis o barhau'r sgwrs yn Saesneg neu aros nes gall siaradwr Cymraeg ei alw/galw yn ôl.

Ar hyn o bryd, yn gyffredinol rydyn ni'n ysgrifennu at bobl yn Saesneg er ein bod yn fodlon derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. Rydyn ni bob amser yn ateb yn Gymraeg pan fyddwn ni'n derbyn llythyr neu e-bost Cymraeg neu pan fyddwn wedi cael cais i wneud hynny.

Mae'r mwyafrif o'n ffurflenni a dogfennau cyfrifo yn Saesneg ond byddwn yn ystyried ffurflenni dwyieithog pan fydd hynny'n addas.

Y Staff a'r Gweithle

Rydyn ni'n asesu pa lefelau o sgiliau iaith Gymraeg sydd eu hangen ar gyfer unrhyw swyddi yn yr elusen ac yn cynnwys hyn fel rhan o'n proses fonitro.

Byddwn yn cadw cofnod o sgiliau iaith Gymraeg yr holl staff o 2015, ac yn rhannu gwybodaeth am sgiliau Cymraeg pob gweithiwr, fel gallwn ni gyfeirio ymholiadau yn y Gymraeg i'r person priodol lle cytunwyd ar hynny.

Byddwn yn asesu a chofnodi sgiliau Cymraeg y cyfan o'r staff newydd wrth iddyn nhw ymuno â ni a byddwn yn cefnogi a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a Saesneg yn y gweithle. Os bydd cyfathrebu yn Gymraeg yn angenrheidiol ar gyfer swyddogaeth ac y gwelir bod anghenion hyfforddi, bydd yr Elusen yn darparu'r hyfforddiant perthnasol. Byddwn hefyd yn ceisio cefnogi staff sydd am wella eu sgiliau Cymraeg ac yn galluogi iddyn nhw gael hyfforddiant annibynnol.

Byddwn yn sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei gefnogi ar y lefel uchaf yn ein sefydliad a byddwn yn penodi un aelod o'r uwch dîm reoli i fod yn gyfrifol am weithredu, hyrwyddo ac adolygu'r polisi hwn ynghyd â delio ag unrhyw gwynion am y Gymraeg.

Gwnawn yn siŵr bydd y polisi ar gael i'w ddarllen ar gyfer y staff a'r cyhoedd, gan gynnwys ei osod ar ein gwefan. Caiff y polisi hwn ei weithredu drwy ei gyflwyno'n raddol a byddwn yn ei asesu a'i adolygu bob blwyddyn.

Gwasanaethau sy'n cael eu Darparu ar ein Rhan

Byddwn yn annog pob contractwr neu drydydd parti sy'n darparu gwasanaethau ar ein rhan i gydymffurfio â'r polisi hwn hyd eithaf eu gallu.